ROBERTS, ELEAZER (1825 - 1912), cerddor

Enw: Eleazer Roberts
Dyddiad geni: 1825
Dyddiad marw: 1912
Rhiant: Margaret Roberts
Rhiant: John Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd ym Mhwllheli, Sir Gaernarfon, 15 Ionawr 1825, mab John a Margaret Roberts. Ac ef yn ddeufis oed, symudodd y rhieni i fyw i Lerpwl. Addysgwyd ef yn ysgol Owen Brown, Rose Place, a'r Liverpool Institute. Yn 13 oed aeth i weithio i swyddfa cyfreithwyr. Yn 1853 aeth i swyddfa clerc yr ustusiaid, a dringodd i'r safle o brif gynorthwywr i glerc ynad cyflog y ddinas; daliodd y swydd hyd ei ymddiswyddiad yn 1894. Gwnaed ef yn ustus heddwch yn 1895.

Ysgrifennodd i'r cylchgronau: *Y Drysorfa*, *Y Traethodydd*, a'r *Geninen*, ac yn wythnosol i'r *Amserau* dan yr enw 'Meddyliwr.' Astudiodd seryddiaeth a chyfieithodd ddwy gyfrol Dr. Dick ar y gyfundrefn heulog yn Gymraeg, ac âi o gwmpas i ddarlithio ar seryddiaeth. Ef a ysgrifennodd gofiant Henry Richard ('Apostol Heddwch') a'r nofel Gymraeg *Owen Rees*, sydd yn darlunio bywyd Cymreig yn Lerpwl.

Ef oedd arloeswr cyfundrefn y Tonic Sol-ffa yng Nghymru, a theithiodd ar hyd a lled Cymru i'w hegluro ac i sefydlu dosbarthiadau cerddorol. Cyhoeddodd *Llawlyfr Caniadaeth*, *Llawlyfr y Tonic Solffa*, *Llawlyfr i ddarllen yr Hen Nodiant*, a *Hymnau a Thonau*. Bu'n flaenor ac yn arweinydd y canu yng nghapel Netherfield Road, ac ef (gyda John Edwards) a arweiniodd y gymanfa ganu gyntaf yn Lerpwl yn 1880. Ef a gyfansoddodd yr emyn poblogaidd 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw.'

Bu farw 6 Ebrill 1912, a chladdwyd ef ym mynwent Anfield, Lerpwl.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, Awst 1896 a Mai 1912

J. Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Lerpwl 1929-1932)

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 38983998

Wikidata: Q5354460

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). ROBERTS, ELEAZER (1825 - 1912), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-ELE-1825

Copïo'r cliptrwdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government